# Gwerth undebau llafur yng Nghymru
## Adroddiad ar y digwyddiad bord gron

## Cyflwyniad

Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru wedi cynnal adolygiad o'r dystiolaeth annibynnol ar werth undebau llafur yng Nghymru. Roedd yr adroddiad canlyniadol yn tynnu sylw at nifer o fylchau yn y dystiolaeth. Gellir llenwi rhai ohonynt drwy gael data newydd neu wahanol ar gael yn y dyfodol. I drafod y data hyn a'r bylchau yn y dystiolaeth, ffyrdd o'u llenwi a'r rhwystrau yn hynny o beth, cynullodd y Ganolfan ddigwyddiad bord gron gan wahodd arbenigwyr academaidd ac uwch swyddogion o'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, Llywodraeth Cymru a'r TUC. Mae'r nodyn hwn yn crynhoi prif gasgliadau'r drafodaeth honno a'r camau nesaf posibl.

Roedd y digwyddiad hwn yn arbennig o amserol yn sgil ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyflwyno deddfwriaeth i gryfhau'r dull partneriaeth gymdeithasol yng Nghymru. Gan adeiladu ar ganfyddiadau'r Comisiwn Gwaith Teg, bydd y ddeddfwriaeth yn rhoi sail statudol i'r gwaith o ymgysylltu ag undebau llafur a chyflogwyr, ac yn newid sut mae Llywodraeth Cymru yn caffael gwasanaethau ac yn gwario arian. Nod hyn yw gwella hawliau gweithwyr ac ansawdd swyddi.

Er mwyn gwneud yn siŵr bod y bartneriaeth statudol hon yn llwyddo i gefnogi gwaith teg, bydd hi'n bwysig mynd i'r afael â'r bylchau data a'r materion eraill a amlinellir yn y nodyn byr hwn.

## Sut ydym ni'n dadansoddi gwerth undebau llafur ar hyn o bryd?

Yn gyffredinol, gellir diffinio undebau llafur fel sefydliadau sy'n gofalu am fuddiannau aelodau – yn weithwyr fel arfer ond nid bob amser – o ran cyflog ac amodau a/neu drwy eu cynrychioli mewn trafodaethau ac anghydfodau. Y mater mwy cymhleth yw sut rydym ni'n mesur eu gweithgarwch a'u dylanwad.

Cyfeiriwyd at dri mesur o weithgarwch undebau yn y digwyddiad bord gron: aelodaeth (niferoedd); cynrychiolaeth yn y gweithle (presenoldeb); ac a yw undebau'n trafod cyflogau ac amodau (hyd a lled). Mae'r rhain wedi'u diffinio ym mlwch 1.

Mae'r arolygon sy'n dylanwadu ar y dadansoddiadau hyn, gan gynnwys yr Arolwg o'r Llafurlu, yr Arolwg Sgiliau a Chyflogaeth, yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion a'r Arolwg Cysylltiadau Cyflogaeth yn y Gweithle, yn hynod o bwysig o ran ein dealltwriaeth o werth undebau llafur. Er hynny, mae ganddynt eu cyfyngiadau. Efallai nad yw data arolygon yn rhoi darlun cywir neu gyflawn o ddylanwad undebau llafur. Er enghraifft, mae tystiolaeth o

effaith undebau llafur ar gyflogau'n seiliedig ar ganfyddiadau gweithwyr weithiau, ac efallai nad yw'r rheini'n hollol gywir. Er enghraifft, gallai amcangyfrifon anwybyddu effaith deddfwriaeth isafswm cyflog – deddfwriaeth yr oedd yr undebau llafur yn hollbwysig o ran eu sicrhau. Ar ben hynny, mae gwahanol arolygon yn cynhyrchu gwahanol amcangyfrifon o ganlyniad yn bennaf i'r ffordd mae cwestiynau'n cael eu geirio, y ffordd o ofyn y cwestiynau (wyneb yn wyneb, dros y ffôn, ar bapur neu ar-lein), a dyluniad pob arolwg (trefn y cwestiynau, amseru, hyd a samplo). Mae hyn yn broblem benodol i'r Arolwg o'r Llafurlu, sy'n adrodd cyfraddau sylweddol is (Davies, 2016). Mae'r materion hyn yn tynnu sylw at werth a chyfyngiadau data sy'n cael eu defnyddio i fesur gweithgarwch undebau llafur.

## Blwch 1: Mesur gweithgarwch undebau llafur

Mae gwahanol arolygon yn mesur gwahanol agweddau ar aelodaeth o undeb llafur. Mae'r nodyn hwn yn defnyddio'r tri diffiniad gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) ar gyfer amcangyfrifon swyddogol o aelodaeth o undeb llafur, fel y cyflwynir yn eu bwletinau ystadegol.

- Niferoedd undebau llafur: canran y rheini sy'n gweithio ac yn aelod o undeb llafur;
- Presenoldeb undebau llafur: a yw'r undeb llafur neu'r gymdeithas staff yn bresennol mewn gweithle (h.y. cydnabyddiaeth);
- Hyd a lled undebau llafur: a yw cyflog ac amodau gweithwyr yn cael eu cytuno mewn trafodaethau rhwng y cyflogwr ac undeb llafur.

Ffynhonnell: Davies (2016)

Mae sylfaen aelodaeth gref yn hollbwysig ar gyfer ariannu undebau llafur gan ganiatáu iddynt gyflawni eu rôl, rhoi'r potensial i undebau gydfargeinio a darparu gwasanaethau i aelodau (Bennet a Kaufman, 2007). Yn ein hadroddiad, rydym ni'n dangos bod gostyngiad hirdymor mewn aelodaeth o undeb llafur yng Nghymru, yn y DU ac o gwmpas y byd. Ar hyn o bryd, yr aelodaeth yng Nghymru yw 30.5% o weithwyr yn 2018 – gostyngiad o 13.5 pwynt canran ers 1995 (BEIS, 2019).

Gallwn hefyd ystyried pŵer undebau llafur yn y gweithle drwy ddadansoddi presenoldeb a hyd a lled undebau llafur mewn gweithleoedd ac ar draws gweithleoedd. Mae data cyfres amser o'r Arolwg Sgiliau a Chyflogaeth yn dangos bod gan undebau llafur aelod yn y gweithle ar gyfer tua 40% o boblogaeth Cymru, a bod eu hyd a lled yn y gweithle yn ffigur tebyg (Felstead, 2017). Mae'r ffigurau yn dal yn gostwng dros amser, ond i raddau llai na'r aelodaeth. Mae hyn yn awgrymu darlun cymysg: os oes gan undebau gynrychiolydd yn y gweithle, gallant arfer pŵer a dylanwad o hyd; ond mae cydnabyddiaeth yn wahanol iawn i drafodaeth lwyddiannus, sydd hefyd yn gostwng (Felstead, 2017).

Mae data ar gael ar lwyddiant trafodaethau, ond eto maen nhw'n gyfyngedig. Mae premiwm cyflogau yn y sector cyhoeddus, ond mae'n llai clir ac yn debygol o fod yn llai yn y sector preifat. Mae'n ymddangos bod undebau llafur yn gwella cydraddoldeb cyflogau hefyd – mae cydberthyniad rhwng presenoldeb undebau a chynnydd cyflogau llai dramatig i'r rhai sy'n ennill y cyflogau mwyaf. Mae data o'r Arolwg Sgiliau a Chyflogaeth hefyd yn awgrymu bod aelodau o undeb yn fwy tebygol o gael hyfforddiant a bod mewn gweithleoedd mwy diogel, o fod wedi colli llai o amser o ganlyniad i anafiadau a salwch, ac o gael cysylltiadau gwell a mwy o ddylanwad.

I grynhoi o ran Cymru, ar gyfer bron i bob un o'r dangosyddion mae'r darlun yng Nghymru yn dangos mwy o weithgarwch a dylanwad i undebau llafur na gweddill y DU (er bod hynny'n seiliedig ar faint samplau bach). Fel canran o'r boblogaeth, mae mwy o aelodau, mwy o gytundebau cydnabyddiaeth, mwy o reolwyr undeb sydd o blaid masnach, mwy o ymgynghoriadau undeb, a mwy o gytundeb gan reolwyr bod undebau llafur yn gwella perfformiad sefydliadau.

Gall data sy'n bodoli eisoes helpu i fonitro rhai o'r materion hyn. Mae arolygon sy'n bodoli eisoes yn cynhyrchu data y gellir eu defnyddio i ddeall tueddiadau tymor hir. Dros amser, gallwn ddeall sut mae cyflogau ac amodau wedi newid, ac efallai y gallwn ddechrau gweld tueddiadau sy'n gysylltiedig â'r polisïau sydd gan Lywodraeth Cymru yn yr arfaeth a gweithgarwch undebau llafur.

## Beth yw'r bylchau data? Cyfleoedd a chyfyngiadau

Fel yr amlinellir uchod, mae gennym ddata arolygon ar aelodaeth, cyflogau ac amodau, a chynrychiolaeth. Mae gan undebau llafur rywfaint o ddata, ar aelodaeth yn bennaf, a fyddai'n ategu neu'n cefnogi'r data hyn o arolygon, ond nid ydynt yn cael eu casglu mewn ffordd safonol ar draws undebau. Byddai data y tu hwnt i arolygon ar gyflogau ac amodau'n ddefnyddiol hefyd.

Roedd cytundeb ymysg y cyfranogwyr yn y digwyddiad bord gron; er bod data arolygon yn gallu rhoi cryn dipyn o wybodaeth i ni am yr effaith mae undebau llafur wedi'i chael ar gyflogau ac amodau, nid ydynt yn darparu digon o wybodaeth am fanylion y cytundebau yn aml, er enghraifft a yw tâl ac absenoldeb mamolaeth a thadolaeth wedi'u cynnwys, neu sut mae'r cytundebau'n effeithio ar newidiadau tymor hir mewn cyflogau ac amodau.

Mae rhai agweddau ar weithgarwch undebau llafur y gallai data ddarparu gwell gwybodaeth amdanynt. Er bod gennym wybodaeth o safon resymol am gyflogau, iechyd a diogelwch, a hyfforddiant, mae llai o ddata ar gael ar ansawdd cyflogaeth, y mathau o gontract cyflogaeth, sicrwydd swydd, anghydfodau yn y gweithle a chwynion disgyblu, a'r

rôl mae undebau llafur yn ei chwarae o ran gwella a lliniaru mewn cysylltiad â'r amodau hyn.

Mae rhai o'r bylchau data hyn yn anodd eu llenwi â dim ond data meintiol. Byddai data ansoddol yn darparu gwybodaeth ategol. Gall data meintiol daflu goleuni ar weithgarwch cyffredinol undebau llafur, yn enwedig pan fo'r data'n ddigon cyfoethog i ganiatáu dadansoddi amryw o elfennau, sy'n gallu nodi dylanwad undebau llafur ar faterion cyflogaeth allweddol. Serch hynny, byddai astudiaethau achos yn darparu rhagor o fanylion am ddylanwad undebau llafur oherwydd byddai mwy o fanylder a chyd-destun, a'u bod yn rhoi cyffyrddiad dynol ar y data drwy bortreadau a straeon haws eu deall. Efallai y byddai hyn yn helpu i wneud y wybodaeth yn haws ei deall i gynulleidfa gyffredinol drwy ddarlunio'n well sut mae newidiadau i gyflogau ac amodau wedi elwa gweithwyr a chymunedau.

Byddai gwella argaeledd data'n cyfrannu at ein dealltwriaeth o'r cwestiynau hyn. Trafododd y cyfranogwyr yn y digwyddiad bord gron ffyrdd o wneud data ar gael yn gyhoeddus, gan gydnabod bod rhai awgrymiadau'n arwain at ystyriaethau moesegol a rhai yn ymwneud â diogelu data:

- Gallai undebau llafur gyhoeddi eu data aelodaeth, a gallai hynny wedyn gael ei gysylltu â'r setiau data mae adrannau llywodraeth yn eu dal (er enghraifft adrannau mawr yn Llywodraeth y DU fel Cyllid a Thollau EM a'r Adran Gwaith a Phensiynau).
- Byddai data talu wrth ennill a threth yn ei gwneud hi'n bosibl tracio cynnydd unigolion yn y farchnad lafur; ac yn darparu gwybodaeth am oriau gwaith, cyflogau ac amodau. Yn bwysig, byddai hefyd yn darparu data gwrthffeithiol er mwyn cael gwell dealltwriaeth o ddylanwad undebau llafur ar draws sectorau a rhanbarthau.
- Gallai data gweinyddol sy'n seiliedig ar iechyd, os cânt eu cysylltu â data ar aelodaeth o undeb llafur, gefnogi'r gwaith o ddadansoddi effeithiau undebau llafur ar unigolion, fel iechyd corfforol ac iechyd meddwl, ac absenoldeb salwch.
- Gallai data arolygon neu ddata ar aelodaeth o undeb llafur hefyd holi cyflogwyr a gweithwyr i geisio canfod a yw arferion gwaith tecach yn cael eu rhoi ar waith, ac a yw aelodaeth o undeb llafur neu ddylanwad undebau'n rhagfynegydd. Maen nhw hefyd yn gallu dangos a yw cyflogau ac amodau'n newid dros amser ac i ba raddau mae aelodaeth o undeb llafur yn cyfrannu.
- Gellid cysylltu data ar berfformiad sefydliadol â data ar aelodaeth o undeb llafur, er mwyn i ni allu dadansoddi effaith undebau llafur ar gynhyrchiant a pherfformiad economaidd.
- Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn gofyn cyfres o gwestiynau am iechyd a lles, yn ogystal â chwestiynau am ardaloedd lleol a chymunedau. Pe bai modd cysylltu

hynny ag aelodaeth o undeb llafur, gallai ychwanegu cryn dipyn o werth at ein gwybodaeth am ddylanwad undebau llafur.

- Pe bai'r arolygon sy'n bodoli eisoes yn ychwanegu sampl atgyfnerthol i Gymru, byddai hyn yn cynyddu maint y sampl y tu hwnt i'r hyn a fyddai ar gael pe bai ymatebwyr o Gymru'n cael eu cynrychioli'n gymesur â phoblogaeth y DU.

Byddai'r camau hyn yn cynyddu'r potensial dadansoddi a dealltwriaeth o rôl a gwerth undebau llafur, ac effeithiolrwydd y dull partneriaeth gymdeithasol. Byddai samplau mwy yn golygu bod modd gwneud dadansoddiad amlamrywedd sy'n edrych ar ragfynegyddion cyflog, amodau, iechyd a lles da, ac i ba raddau mae gweithgarwch undebau llafur yn dylanwadu ar gyflawni'r rhain.

Mae gan rai o argymhellion y Comisiwn Gwaith Teg oblygiadau data, fel galwadau i Swyddfa Ystadegau Gwladol gydnabod gofynion data gwaith teg Llywodraeth Cymru (Gwaith Teg Cymru, 2019). Mae'n bwysig bod data'n cael eu hystyried fel rhan o Swyddfa newydd y Bartneriaeth Gymdeithasol a Gwaith Teg er mwyn gwneud yn siŵr bod penderfyniadau'n cael eu gwneud ar sail tystiolaeth sydd ar gael. Mae TUC Cymru wedi nodi ei diddordeb mewn gwaith pellach yn y maes hwn ac efallai y bydd hi'n werth chweil i Lywodraeth Cymru drefnu rhagor o drafodaethau ag arbenigwyr.

Ond mae llawer o resymau pam nad yw'r data hyn yn bodoli neu nad ydynt ar gael yn gyhoeddus ar hyn o bryd. Mewn egwyddor, mae Llywodraeth y DU am wneud data tebyg ar gael, ond byddai'n rhaid buddsoddi cryn dipyn o amser ac adnoddau, yn enwedig os mai'r bwriad yw eu cysylltu ar draws setiau data. Roedd rhai o'r cyfyngiadau ymarferol a nodwyd yn y drafodaeth bord gron yn cynnwys:

- Mae casglu data ychwanegol yn ddibynnol ar ymrwymiad gan wahanol undebau llafur. Er bod ganddynt eu hawdurdodaethau eu hunain, mae'r rhan fwyaf o undebau llafur yng Nghymru yn gweithredu o fewn systemau gweinyddol undebau llafur y DU.
- Mae newid cwestiynau arolygon yn effeithio ar gysondeb data cyfres amser, sy'n ei gwneud hi'n anoddach pennu tueddiadau dros amser.
- Mae cyfyngiadau o ran newid arolygon. Er enghraifft, nid oes gan yr Arolwg o'r Llafurlu le ar gyfer cwestiynau newydd heb gael gwared ar rai sy'n bodoli eisoes – mae'r Arolwg o'r Llafurlu fel y mae nawr yn cymryd tua 40 munud i'w gwblhau.
- Rhaid sicrhau bod data'n cael eu rheoli yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) 2016.

Nid yw'r materion hyn yn anorchfygol ond byddai'n rhaid cael ymrwymiad gan randdeiliaid.

## Newidiadau deddfwriaethol a sefydliadol diweddar

Bydd deddfwriaeth ar y bartneriaeth gymdeithasol yn cefnogi ymgysylltiad tridarn rhwng undebau llafur, cyflogwyr a busnesau. Ochr yn ochr â hyn mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn, mewn egwyddor, holl argymhellion y Comisiwn Gwaith Teg.

Gallai'r rhain effeithio ar sut mae Llywodraeth Cymru'n gweithredu yn y dyfodol. Gallai wneud grantiau, benthyciadau a chontractau'r Llywodraeth, yn ogystal â chaffael gwasanaethau cyhoeddus, yn ddibynnol ar sefydliadau'n gweithredu arferion gwaith teg. Mae Prif Weinidog Cymru wedi ei gwneud hi'n glir ei fod yn ystyried undebau llafur yn hollbwysig i'r datblygiadau hyn.

Mae hyn yn ychwanegu dimensiwn newydd at yr hyn y byddwn eisiau ei fesur efallai, a pha ddata fyddai eu hangen arnom i sicrhau hyn. Yn ddelfrydol, rydym ni eisiau gwybod a yw gwaith teg yn gyffredin yng Nghymru ac i ba raddau mae partneriaeth gymdeithasol Llywodraeth Cymru yn cyfrannu at hyn, a sut mae undebau llafur yn cefnogi'r bartneriaeth gymdeithasol. Er nad yw diffiniad y Comisiwn Gwaith Teg o waith teg yn cynnwys cydfargeinio yn benodol, mae'n cydgynrychiolaeth yn ogystal â hawliau cyfreithiol yn cael 'eu parchu a'u gwireddu' (Gwaith Teg Cymru, 2019: 2). Mae cydfargeinio hefyd yn cael ei gydnabod yn benodol yn yr adroddiad fel llwybr i waith teg.

Bydd Llywodraeth Cymru yn ffurfio Swyddfa Partneriaeth Gymdeithasol a Gwaith Teg i ddatblygu cynigion ar gyfer y bartneriaeth gymdeithasol a gwaith teg. Tynnwyd sylw yn y digwyddiad bord gron at bwysigrwydd cael data ar gael sy'n gallu helpu i ddadansoddi effeithiolrwydd y newid hwn mewn polisi. Roedd y cyfranogwyr yn dadlau bod prinder data ar ddulliau partneriaeth gymdeithasol ar hyn o bryd. Mae rhai ffyrdd o gywiro hynny'n cynnwys gwneud data gweinyddol ar gael ar gyfer gwaith dadansoddi. Er enghraifft, gallai Llywodraeth Cymru amlinellu pa sefydliadau sydd wedi ennill contractau cyllid cyhoeddus ac a ydynt yn glynu wrth arferion gwaith teg. Gellid ategu hyn â data arolygon sy'n holi ynglŷn â newidiadau mewn cyflogau ac amodau, ac astudiaethau achos o sefydliadau sydd wedi mabwysiadu arferion gwaith tecach o ganlyniad i'r dull partneriaeth gymdeithasol. Gyda'i gilydd, byddai'r rhain yn cynyddu ein dealltwriaeth o'r dull partneriaeth gymdeithasol ac o ddylanwad undebau llafur ynddo.

## Casgliadau a chamau nesaf

Fe wnaeth y digwyddiad bord gron gasglu ynghyd uwch swyddogion ac arbenigwyr o amrywiaeth o sefydliadau allweddol i drafod pa ddata sydd ar gael ar hyn o bryd, i ba raddau maen nhw'n bodloni gofynion dadansoddol, a sut gallai data newydd helpu i ateb cwestiynau allweddol am weithgarwch undebau llafur, ei werth, ac effaith partneriaeth gymdeithasol statudol.

Mae'r data sy'n bodoli eisoes yn ateb rhai cwestiynau, gan gynnwys:

- Lefel yr aelodaeth o undebau llafur yng Nghymru (niferoedd);
- Dylanwad undebau llafur ar gyflogau ac amodau sylfaenol (presenoldeb a hyd a lled);
- Y gwahaniaethau rhwng Cymru a gweddill y DU (a thu hwnt).

Fodd bynnag, mae mesur effaith undebau llafur yn anodd oherwydd y diffyg data ar lefel Cymru. Mae maint bach y sampl yng Nghymru, y diffyg cwestiynau arolwg am wahanol agweddau ar waith, cyflogau ac amodau, a'r diffyg data ansoddol ac astudiaethau achos yn arwain at ddarlun rhannol yn unig o werth undebau llafur yng Nghymru.

Serch hynny, mae llawer o ffyrdd o ddechrau llenwi'r bylchau yn y dystiolaeth ac mae gan Lywodraeth Cymru, y Swyddfa Ystadegau Gwladol, undebau llafur a chyd-weithwyr academaidd ddiddordeb mewn gwneud cynnydd. Cafodd y camau nesaf posibl eu trafod:

- Byddai sicrhau hwb i sampl Cymru mewn arolygon sy'n bodoli eisoes yn y DU yn ei gwneud hi'n bosibl dadansoddi achos Cymru'n drylwyr. Gellid edrych ar y posibilrwydd o gynnwys cwestiwn ychwanegol yn yr Arolwg o'r Llafurlu. Byddai hyn yn helpu'r Swyddfa Ystadegau Gwladol i gydnabod gofynion data gwaith teg Llywodraeth Cymru fel yr argymhellwyd gan y Comisiwn Gwaith Teg (Gwaith Teg Cymru, 2019).
- Efallai y bydd undebau llafur yn ystyried a oes ffyrdd o gasglu eu data at ei gilydd er mwyn eu cysylltu â setiau data sy'n bodoli eisoes, er enghraifft cysylltu Arolwg Cenedlaethol Cymru â gwybodaeth am aelodaeth o undebau llafur. Gallai rhaglen ymchwil ddadansoddi data aelodaeth dienw yn annibynnol.
- Byddai ymchwil ansoddol yn helpu i gael gwell dealltwriaeth o werth undebau llafur, er enghraifft astudiaethau achos o gyflogwyr a gweithwyr.
- Roedd y cyfranogwyr yn teimlo y byddai'n werth chweil dod ynghyd i drafod y materion a'r cyfleoedd i lenwi'r bylchau yn y data a'r dystiolaeth. Pe bai TUC Cymru neu Lywodraeth Cymru'n sefydlu fforwm achlysurol i randdeiliaid ddod ynghyd, byddai hyn yn cefnogi parhad deialog a chynnydd tuag at lenwi'r bylchau data.
- Gallai ymgysylltiad parhaus â Swyddfa newydd y Bartneriaeth Gymdeithasol a Gwaith Teg, fel y caiff ei ffurfio, gefnogi'r gwaith o ddatblygu capasiti i fonitro effaith y bartneriaeth.
- Byddai safoni codau sector ar gyfer aelodau TUC yn ddatblygiad tymor hirach.

## Cyfeiriadau

Bennett J. T. a Kaufman B. E. (Eds.) (2007). **What do unions do? A twenty-year perspective**. New Brunswick, NJ: Transaction Publishers.

Davies, R. (2016). **Making Sense of Official Estimates of Trade Union Membership.** Cyrchwyd o: https://wiserd.ac.uk/publications/making-sense-official-estimates-trade-union-membership

Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol. (2019). **Trade union membership 2018: statistical bulletin.** Cyrchwyd o: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/805268/trade-union-membership-2018-statistical-bulletin.pdf

Gwaith Teg Cymru (2019). **Adroddiad y Comisiwn Gwaith Teg.** Cyrchwyd o: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/gwaith-teg-cymru.pdf

Felstead, A. (2017). **Arolwg Sgiliau a Chyflogaeth 2017.** Prifysgol Caerdydd. Cyrchwyd o: https://www.cardiff.ac.uk/cy/research/explore/find-a-project/view/626669-skills-and-employment-survey-2017

## Manylion yr Awduron

Mae **Dr Craig Johnson** yn Gydymaith Ymchwil yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Mae **Suzanna Nesom** yn Brentis Cynorthwyydd Ymchwil yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Mae **Dr Helen Tilley** yn Uwch Gymrawd Ymchwil yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

For further information, please contact:

**Dr Helen Tilley**
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru
+44 (0) 29 2087 9640
info@wcppp.org.uk